**PWYLLGOR CYNLLUNIO**

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun ar Ddydd Mercher 25[ain] Tachwedd 2009 am 09:30am.

**PRESENNOL**

Y Cynghorwyr I W Armstrong, J R Bartley, J B Bellis, B Blakeley, J Chamberlain Jones, W L Cowie, J M Davies, M Ll Davies (sylwedydd), M Eckersley, G C Evans, I A Gunning, D Hannam, C Hughes, H Ll Jones, G M Kensler, P W Owen, D Owens, A G Pennington, B A Smith, D I Smith, D A J Thomas, S Thomas, C H Williams.
Ynghyd â Phennaeth Cynllunio a Diogelwch y Cyhoedd, Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol, Rheolwr Cynllunio Datblygiad, Prif Swyddog (Ian Weaver) G Butler (Arweinydd Tîm – Cefnogaeth) a Bryn Jones (Cyfieithydd)

**DERBYNIWYD YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB ODDI WRTH**

Y Cynghorwyr P Dobb, J A Davies, N J Hughes, T R Hughes, E R Jones, L M Morris, J Thompson Hill.

**519 CANLYNIAD APÊL CYNLLUNIO, FFERM WYNT GORSEDD BRAN, NANTGLYN**

Cylchredwyd adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Diogelwch y Cyhoedd er gwybodaeth i'r aelodau yn rhoi manylion penderfyniad Arolygiaeth Gynllunio'r Swyddfa Gymreig i wrthod yr apêl gynllunio Cyf. 25/2007/642/PF.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad er gwybodaeth.*

**520 CEISIADAU AM GANIATÂD AR GYFER DATBLYGU**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Cynllunio a Diogelwch y Cyhoedd (a gylchredwyd ymlaen llaw) yn rhestru'r cynlluniau a gyflwynwyd ac yr oedd gofyn i'r Pwyllgor benderfynu arnynt.

***RPENDERFYNWYD*** *bod:-*

*(a)* *Argymhellion y Swyddogion, fel y'u cyflwynwyd yn yr adroddiad nas cyflwynwyd, yn cael eu cadarnhau a bod caniatâd neu wrthodiad yn ôl yr achos, yn cael ei roi fel sy'n briodol o dan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad a Ganiateir yn Gyffredinol) 1995, Deddf Iawndal a Chynllunio, 1991, Rheoliadau Hysbysebu Cynllunio Gwlad a Thref, 1994 a/neu Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth), 1990 yn achos y datblygiad a gynigir gan y cynlluniau canlynol yn atebol i'r amodau a restrir yn yr atodiad a gyflwynir yma:-*

(i) Caniatâd

| Rhif Cais | Disgrifiad a Lleoliad |
|---|---|
| 41/2009/0620/PO | Datblygu 0.19ha o dir drwy godi 5 annedd (cais amlinellol yn cynnwys dull mynedfa, pob mater arall wedi ei gadw yn ôl)<br>**Old Forge Garage Ffordd yr Wyddgrug Bodfari Dinbych**<br>**CANIATÂD**<br>Amod Diwygiedig 9<br>**Mân Aralleirio Amod 9**<br>"Er gwaethaf darpariaethau Rhestr 2 Rhan 1 Dosbarthiadau A-H Deddf Cynllunio Gwlad a Thref (Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995, ni chaniateir unrhyw adeiladau, strwythurau na chodi lefel y tir ar unrhyw bryd o fewn i 7 metr o'r brif afon (Afon Chwiler)<br>**Nodyn Ychwanegol i'r Ymgeisydd** |

O ystyried lleoliad yr afon fe'ch cynghorir i ymgynghori gydag Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru i gael sicrwydd parthed unrhyw ofynion ar gyfer gwaith i ddiogelu'r datblygiad, cyn darparu unrhyw gynlluniau manwl.

**Nodyn i'r Ymgeisydd**

Fe'ch cynghorir i gysylltu â'r swyddog achos yn yr Adran Gynllunio i drafod syniadau ar gyfer manylion y datblygiad, yn arbennig i roi sylw i bryderon lleol ynglŷn â derbynioldeb main yr anheddau arfaethedig mewn perthynas â rhai eraill cyfagos mewn lleoliad amlwg ar gwr y pentref.

16/2009/1226/PO

Yn dilyn ystyriaeth i 1 llythyr sylwadau ychwanegol oddi wrth Bennaeth Trafnidiaeth a Seilwaith Cyngor Sir Ddinbych.

Datblygu 0.08ha o dir drwy godi annedd (cais amlinellol – pob mater wedi ei gadw yn ôl) (cais diwygiedig)

**Llain o dir o flaen Bryn Melyn Llanbedr Dyffryn Clwyd Rhuthun**

**CANIATÂD**

(i) Gwrthodiadau

44/2009/0996/PF

**SIARADWR O BLAID: ELFED WILLIAMS**

Gadawodd y Cynghorydd S Thomas y gadair yn ystod yr ystyriaeth ar yr eitem hon a chymerwyd ei le gan y Cynghorydd Ray Bartley.

Yn dilyn ystyriaeth i 2 lythyr sylwadau ychwanegol oddi wrth Ann Jones (AC) a Rheolwr Ystadau a Phrisio Cyngor Sir Ddinbych.

Gwelliant i ddatblygiad 38 annedd ar ffurf sengl, teras a rhandai, a ganiatawyd yn flaenorol o dan Rif Cod 44/2005/0081/PF, i alluogi i ddarpariaeth 6 o unedau byw fforddiadwy gael eu trosglwyddo oddi ar y safle ac i 4 o unedau byw fforddiadwy aros ar y safle ar leiniau 12, 13, 16 & 17

**Tir Abbey Nurseries gynt ar Ystâd Maes y Castell Rhuddlan, Y Rhyl**

**GWRTHOD**

44/2008/0566/PF

**SIARADWR O BLAID: ELFED WILLIAMS**

Gadawodd y Cynghorydd S Thomas y gadair yn ystod yr ystyriaeth ar yr eitem hon a chymerwyd ei le gan y Cynghorydd Ray Bartley.

Codi 10 annedd a llunio mynediad newydd i gerbydau a cherddwyr

**Tir a gyrhaeddir oddi ar Ffordd y Rhyl sy'n cyd-ffinio â Mynwent Rhuddlan Ffordd Newydd Rhuddlan y Rhyl**

**GWRTHOD**

**YN GROES I'R ARGYMHELLIAD**

Cymerwyd y penderfyniad sy'n groes i Argymhelliad y Swyddogion am y rheswm canlynol:

**Rheswm**

1. Ym marn yr Awdurdod Cynllunio Lleol, byddai'r cynnig i ddarparu 7 uned fyw fforddiadwy ar y safle yn arwain at ddarpariaeth ormodol o anheddau o'r fath, yn groes i fwriadau Polisi HSG10 Nodyn 22 y Cynllun Datblygu Unedol: Tai Fforddiadwy mewn Datblygiadau Newydd, a Nodyn 2 Cyngor Technegol: Cynllunio a Thai Fforddiadwy sy'n ceisio cyflawni cymysgedd briodol o fathau o dai wedi eu dosbarthu drwy ddatblygiadau newydd.

45/200/0437/PF

**SIARADWR YN ERBYN: RAY BECKINSALE**

Yn dilyn ystyriaeth i gynlluniau ychwanegol a gylchredwyd a llythyrau sylwadau ychwanegol oddi wrth: Ll.C.C.; Asiantaeth yr Amgylchedd; Dŵr Cymru; a Pheiriannydd Draenio Cyngor Sir Ddinbych

Datblygu 0.85 hectar o dir drwy godi cartref gofal preswyl (Dosbarth C2) a datblygiad ategol o feithrinfa ddydd (Dosbarth D1) a chanolfan gymunedol (Dosbarth D2), meysydd parcio ategol a ffordd mynediad cysylltiedig (Cais Amlinellol)

**Tir oddi ar Ffordd Elan y Rhyl**
**GWRTHOD**
**Rheswm Ychwanegol**
2. Ym marn yr Awdurdod Cynllunio Lleol byddai'r cynnig i ddatblygu cartref gofal preswyl 60 gwely ar y safle yn groes i fwriadau Polisi CF4 Cynllun Datblygu Unedol Sir Ddinbych gan ei fod ar y fath raddfa nas gellir ei ystyried yn gyfleuster cymunedol i wasanaethu anghenion yr ardal leol.

**521 EITEM GORFODAETH**

Mynediad a thrac ar draws cae: Tir i'r De Orllewin o 2 & 3 Bryn Derwen, Rhewl Llangollen (copi wedi ei atodi)

***PENDERFYNWYD*** *bod y Pwyllgor Cynllunio yn awdurdodi cyhoeddi Rhybudd Gorfodaeth o dan Adran 172 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, gyda chyfnod o 6 mis i gydymffurfio, yn mynnu:-*

*(i) bod y mynediad anawdurdodedig yn cael ei gau yn barhaol a'r hyd sylweddol o wrych min y ffordd sydd wedi ei ddileu yn cael ei adfer erbyn diwedd y tymor plannu cynharaf o fewn i'r cyfnod cydymffurfio.*

*(ii) bod y trac anawdurdodedig yn cael ei ddileu a'r cae yn cael ei adfer i'w gyflwr blaenorol fel cae amaethyddol.*

*Rhoi cychwyn ar ddwyn achos i erlyn unrhyw berson sydd wedi derbyn Rhybudd ac sydd heb neu sy'n gwrthod cydymffurfio â darpariaethau'r Rhybudd.*

Y Swyddogion i wirio'r rheoliadau Dadwreiddio Gwrychoedd.

**522 ADRODDIADAU ER GWYBODAETH**

**(a) Ceisiadau a elwir i mewn – Stryd Clwyd, Rhuthun**

(a) Derbyn adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Diogelwch y Cyhoedd
PENDERFYNWYD:
Bod y Pwyllgor yn ysgrifennu at Lywodraeth Cynulliad Cymru i fynegi pryder ynglŷn â'r oedi cyn cyhoeddi penderfyniadau ar geisiadau a alwyd i mewn.

**(b) Rhaglen Hyfforddi Cynghorau Bro a Chymuned ar gyfer 2010**

Derbyn adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Diogelwch y Cyhoedd (copi wedi ei ategu)
PENDERFYNWYD
Bod y swyddogion i ystyried lleoliadau yng ngogledd y Sir ac i ystyried darparu sesiynau hwy.

**(c) Comisiwn Cynllunio Seilwaith**

Derbyn adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Diogelwch y Cyhoedd (copi wedi ei ategu)
PENDERFYNWYD
Bod y Swyddogion i ofyn am fersiwn Gymraeg o'r adroddiad.

Derbyniwyd yr Adroddiadau er gwybodaeth.

Terfynwyd y cyfarfod am 10:50am.

*********